

Y Ddraig Goch Fawr (6)

Edmund Owen

Mae'n gas gan y diafol wirionedd, a'i hoff waith yw ymosod ar athrawiaethau'r ffydd Gristnogol. Dyna paham y tynnwyd sylw y tro diwethaf at yr anogaethau niferus i ddiogelu'r ffydd honno. Dyna paham hefyd y ceir llwyth o rybuddion yn y Testament Newydd rhag gau ddysgeidiaeth.

Athrawon gau

Yn y Bregeth ar y Mynydd daw'r rhybudd a ganlyn gan neb llai na'r Arglwydd Iesu ei hun: 'Gochelwch rhag gau broffwydi, sy'n dod atoch yng ngwisg defaid' (Math. 7:18), geiriau sy'n ein hatgoffa pa mor hynod debyg y gall y rhai gau fod i'r gwir broffwydi, tebygrwydd sy'n gwneud y twyll yn bosibl. Yn wir, yn ôl Iesu eto, gellir disgwyl y bydd bodolaeth gau broffwydi yn parhau ar hyd y canrifoedd hyd y diwedd: 'Fe gyfyd llawer o broffwydi gau a thwyllant lawer', a hynny ochr yn ochr â chyhoeddi'r wir efengyl 'drwy'r byd i gyd fel tystiolaeth i'r

holl genhedloedd' (Math. 24:11, 14). Dyna loan wedyn, 'y disgybl annwyl', sy'n sôn cymaint yn ei Efengyl ac yn ei Epistolau am garu ein gilydd, ef o bawb yn cyflwyno yn gwbl ddigyfaddawd y rhybudd hwn: 'Gwylwch eich hunain ... Pob un sy'n mynd rhagddo heb aros yn nysgeidiaeth Crist, nid yw Duw ganddo ... Os daw rhywun atoch heb ddod â'r ddysgeidiaeth hon, peidiwch â'i dderbyn i'ch tŷ na'i gyfarch ef ...' (2 loan 9-11).

Gellir disgwyl y gau athrawon hyn nid yn unig o'r tu allan, ond hefyd i godi o blith aelodau'r eglwys ei hun. Dyna Paul ar draeth Miletus yn ffarwelio am y tro olaf â henuriaid eglwys Effesus, a'i air olaf iddynt: 'Mi wn i y daw i'ch plith wedi fy ymadawiad i, fleiddiaid mileinig nad arbedant y praid, ac y cyfyd o'ch plith chwi eich hunain rai yn llefaru pethau llygredig, i ddenu'r disgyblion ymaith ar eu hôl. Gan hynny, byddwch wyladwrus ...' (Actau 20: 29-31). Mae'r apostol Pedr yn tanlinellu'r un perygl: 'Ymddangosodd hefyd

broffwydi gau ymhlith pobl Israel, ac yn yr un modd bydd athrawon gau yn eich plith chwithau ...' (2 Pedr 2:1). Yr apostol Jwdas wedyn yn dweud bod y rhain 'wedi llithro'n llechwraidd i'ch plith' (Jwdas 4).

Mor wahanol yw hyn i osgo goddefgar ein dyddiau ni. Gwaetha'r modd, ni chlywir fawr neb heddiw yn rhybuddio rhag gau ddysgeidiaeth. Mae'r gwahaniaeth rhwng meddylfryd yr Eglwys Fore a syniadaeth nifer helaeth o grefyddwyr heddiw yn syfrdanol. Ers tro byd, nid oes y fath beth ag uniongrededd bellach; mae rhyddid i bawb ei farn yn enw goddefgarwch. Dechreuodd y malltod hwn yn hanner olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond stori arall yw honno.

Angel goleuni

Fel y nodwyd yn barod, mae a fynno'r diafol â'r sefyllfa drist hon. Noda Paul wrth eglwys Corinth fod 'ffug apostolion' yn eu plith, rhai

oedd 'yn ymrithio fel apostolion i Grist', yn union fel 'y mae Satan yntau yn ymrithio fel angel goleuni.' Dynion oedd y rhain oedd yn rhoi ar ddeall eu bod, fel y gwir apostolion, wedi eu hanfon gan Dduw i lefaru yn enw Crist, ond y gwir oedd mai gweision Satan oeddent, a oeddent yn sylweddoli hynny ai peidio' (2 Cor. 11: 13-15). Yna wrth Timotheus sonia am rai yn yr eglwys a oedd yn tynnu'n groes i'r gwirionedd datguddiedig, ac fe briodola'r sefyllfa honno i weithgarwch llechwraidd y diafol. Nid eu bod yn fwriadol yn camarwain gan eu bod o dan y twyll eu hunain. Mae'n cynghori Timotheus i fod yn addfwyn wrth ddisgyblu'r cyfryw: 'Oherwydd pwy a wŷr na fydd Duw ryw ddydd yn rhoi iddynt edifeirwch i ddod i ganfod y gwirionedd, ac na ddônt i'w pwyll a dianc o fagl y diafol, yr un a'u rhwydodd a'u caethiwo i'w ewyllys' (2 Tim. 2:25). Ie, magl, rhwyd, caethiwed.

Mae'n werth sylwi ar 1 Ioan 4:1: 'Gyfeillion annwyl, peidiwch â chredu pob ysbryd, ond profwch yr ysbrydion i gael gwybod a ydynt o Dduw, oherwydd y mae gau broffwydi lawer wedi mynd allan i'r byd.' Mae'r cyfeiriad at gau broffwydi yma braidd yn annisgwyl; wedi sôn i gychwyn am brofi'r ysbrydion, byddai dyn yn disgwyl y darlleniad 'oherwydd y mae gau

ysbrydion lawer wedi mynd allan i'r byd'. Ond 'gau broffwydi' a enwir, sy'n dangos bod gweithgarwch gau ysbrydion y tu ôl i'r gau broffwydi ac yn eu cymell. Hynny yw, ni ellir esbonio bodolaeth gau broffwydi yn yr eglwys mewn termau dynol yn unig; wrth gefn pob un sy'n cyflwyno gau ddsgeidiaeth, boed bregethwr neu ddiwinydd neu ddarlithydd neu athro ysgol Sul, mae gweithgarwch cudd y diafol a'i ysbrydion.

Angen dirnadaeth

Mae'n dilyn y dylid bod yn effro i'r perygl hwn ac arfer dirnadaeth ysbrydol i ganfod y gwahaniaeth rhwng y gwir a'r gau. Cymeradwywyd eglwys Effesus am wneud hyn. Fe wnaeth yr eglwys honno brofi'r ysbrydion: 'Gan na elli oddef y rhai drwg, gan dy fod wedi rhoi prawf ar y rhai sy'n eu galw eu hunain yn apostolion a hwythau heb fod felly, a chefaist hwy'n gelwyddog' (Dat. 2:2). Dywed Paul eto 'Ond rhowch brawf ar bob peth, a glynwch wrth yr hyn sydd dda.' (1 Thes.5:21). Yn wir, mae gan bob gwir gredadun fesur helaeth o ddirnadaeth yn y mater hwn. Un o amcanion Ioan wrth ysgrifennu ei epistol oedd atgoffa ei ddarllenwyr fod ganddynt y gallu hwn i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau: 'Ysgrifennais hyn atoch ynglŷn â'r

rhai sydd yn eich arwain ar gyfeiliorn. A chwithau y mae'r eneniad a gawsoch ganddo ef yn aros yn och, ac nid oes arnoch angen neb i'ch dysgu, ond mae'r eneniad a roddodd ef yn eich dysgu am bopeth' (1 Ioan 2: 26-27). 'Ond amdanoch chwi y mae gennych eneniad oddi wrth yr Un Sanctaidd, ac yr ydych bawb yn gwybod ... yn gwybod hefyd am bob celwydd nad yw o'r gwirionedd' (1 Ioan 2: 20-21).

Mae gan bob Cristion fesur o eneniad yr Ysbryd Glan a elwir gan Grist yn 'Ysbryd y Gwirionedd', ysbryd a fydd yn arwain ei bobl 'yn yr holl wirionedd' (Ioan 16: 13). Eneiniad yw hwn sy'n goleuo'r meddwl ac yn rhoi iddo fesur o allu i synhwyro'n reddfod bron beth sydd o'r gwir a beth sydd yn sawru o heresi. Mae gan y Cristion feddwl a llygaid a chlust a thrwyn newydd !

Wrth gwrs, mae'n bwysig cofio peth arall: ochr yn ochr ag eneniad yr Ysbryd y mae'r ymlyniad wrth 'yr hyn a glywsoch o'r dechrau' (ad. 24), sef pregethu'r apostolion a thystiolaeth yr Hen Destament. Megis y mae eneniad yr Ysbryd yn oleuni mewnol, mae gair yr Ysgrifur yn sail allanol dros yr hyn a gredwn. A rhwng y ddeubeth hyn – nid un – gellir dirnad i raddau helaeth beth sydd wir a beth sydd gelwydd.

